**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL**

**2 Rhagfyr 2020**

Yn Bresennol: Cynghorydd P Harries (Cadeirydd)
Cynghorydd Mrs D Clements, Dr M Havard, Mrs S Hoss, Mrs J James, Cynghorydd M James, Mr G Jones, Cynghorydd P Kidney, Cynghorydd PJ Morgan, Dr R Plummer, Cynghorydd M Williams a'r Cynghorydd S Yelland

[Ymunodd y Cynghorydd R Owens â'r cyfarfod yn dilyn ystyried y Materion yn Codi o'r cofnodion (Cofnod 4); Ymunodd y Cynghorydd M Evans â'r cyfarfod adeg ystyried y Rhybudd o Gynnig (Cofnod 7); Ymunodd y Cynghorydd K Doolin â'r cyfarfod adeg ystyried Ymestyn y Cynllun Dirprwyo (Cofnod 8) gan iddo gael trafferth cysylltu â'r we].

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am –12.00pm; 12.10pm – 1.10pm)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd P Baker BEM, Dr R Heath-Davies a'r Cynghorydd A Wilcox.

**2. Datgan Buddiannau**

Datganodd Dr R Plummer bod ganddo fuddiant personol ond heb fod yn rhagfarnus mewn perthynas ag adroddiad 46/20 (Prynu tir fel rhan o Gyllido Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy ar gyfer Lleihau Carbon a Chynnal Bioamrywiaeth yn y Parc Cenedlaethol).

**3. Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 30ain o Fedi 2020 i'w cadarnhau a'u dilysu.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 30ain o Fedi 2020.

**4. Materion yn codi**

<u>Cynllun Hyfforddiant ar Ddatblygu Aelodau</u>

Gofynnodd Cadeirydd y Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau i'r Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd a oedd rhagor o adolygiadau datblygu personol wedi'u llenwi, gan annog unrhyw Aelod oedd heb eto lenwi adolygiad i drefnu bod hynny yn digwydd. Atebodd y swyddog bod un adolygiad datblygu personol ychwanegol wedi dod i law, a chytunodd i anfon gair bach i atgoffa'r Aelodau nad oedd eto wedi cyflwyno eu hadolygiad.

**NODWYD.**

**5. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd wedi mynychu unrhyw ddigwyddiadau ers y cyfarfod diwethaf o'r Awdurdod oherwydd cyfyngiadau'r cyfnod clo. Serch hynny dywedodd ei fod wedi mynychu dau gyfarfod o Fforwm Gwledig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar ran Parciau Cenedlaethol Cymru, wedi cadeirio cyfarfod o Barciau Cenedlaethol Cymru, ac ynghyd â Chadeiryddion APC Eryri a Bannau Brycheiniog, wedi cyfarfod â'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, Julie James.

Hefyd roedd wedi mynychu nifer o ddigwyddiadau ar-lein gan gynnwys sgwrs am y prosiect Ailgyflwyno'r Eryr yng Nghymru, Diwrnod Archaeoleg yr Awdurdod, a sawl sgwrs fel rhan o Wythnos Bioamrywiaeth Cymru. Llongyfarchodd swyddogion yr Awdurdod oedd wedi cymryd rhan yn y ddau ddigwyddiad olaf. Yn olaf dywedodd ei fod yn gobeithio mynychu seminar ar y paratoadau i weithredu'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol oedd i'w chynnal i diwrnod canlynol.

Diweddodd drwy ddiolch i'r Aelodau ac i'r staff am eu cefnogaeth barhaus yn yr amgylchiadau anodd sydd ohoni, gan obeithio eu bod yn cadw'n ddiogel ac yn cael y cyfle i gyfarfod â'u teuluoedd dros gyfnod y Nadolig.

Cyhoeddodd y Prif Weithredwr y bydd safle'r Awdurdod yn Oriel y Parc yn cau o ddydd Gwener yn unol â chanllawiau diweddar Llywodraeth Cymru. Roedd yr Aelodau yn ymwybodol bod y safleoedd yng Nghaeriw ac yng Nghastell Henllys eisoes ar gau. Byddai gwybodaeth i hysbysu'r cyhoedd am hyn yn cael ei dosbarthu yn ddiweddarach yn y dydd.

**NODWYD.**

**6. Adroddiadau cyfarfodydd amrywiol Bwyllgorau'r Awdurdod**

Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod i'r Aelodau i'w hystyried/er gwybodaeth:

(i) Y Pwyllgorau Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 2 Medi ac ar 5 Hydref 2020;
(ii) Y Pwyllgorau Ieuenctid a gynhaliwyd ar 29 Medi ac ar 13 Hydref 2020;
(iii) Y Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 23 Medi 2020;
(iv) Y Panel Adolygu Perfformiad y Prif Weithredwr a gynhaliwyd ar 23 Medi 2020;
(v) Y Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2020;
(vi) Y Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy a gynhaliwyd ar 4 Tachwedd 2020; a'r
(vii) Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd 2020.

Mewn ymateb i gwestiwn gan yr Aelodau ynglŷn â chofnodion y Panel Adolygu Perfformiad y Prif Weithredwr, dywedodd y Prif Weithredwr mai Prif Weithredwr newydd Croeso Sir Benfro oedd Emma Thornton. Dywedodd y Cynghorydd Mrs D Clements oedd yn aelod o fwrdd y sefydliad ar ran yr Awdurdod eu bod wedi cynnal eu cyfarfod cyntaf a bod gan y sefydliad lawer o waith i'w wneud.

Dywedwyd bod cofnodion y Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy yn cyfeirio at y Coleg Coppice yn hytrach na Choleg Coppicewood. Roedd gwahoddiad wedi dod i law oddi wrth y coleg i Aelodau'r Awdurdod ymweld â'r safle i weld y gwaith a ariannwyd, ac y gwahoddir pob Aelod i'r digwyddiad hwn unwaith y gellir gwneud y trefniadau.

**PENDERFYNWYD** nodi/mabwysiadu/derbyn cofnodion y Pwyllgorau a enwir uchod.

**7. Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd P Kidney: Bod yr Awdurdod yn ystyried gwasanaeth mentor i staff yr Awdurdod, i drafod unrhyw broblemau neu bryderon, yn sgîl y pwysau ychwanegol arnynt oherwydd y pandemig presennol**

Eglurodd y Cadeirydd nad oedd yr Awdurdod yn hanesyddol wedi derbyn nifer o Rybuddion o Gynnig ond bod gweithdrefn benodol i'w dilyn wrth gyflwyno Rybudd fel y nodir yn Rheolau Sefydlog yr Awdurdod. Nodir ym mharagraff 8.5 a) os yw'r mater dan sylw yn dod o fewn maes Pwyllgor penodol, dylai'r Rhybudd o Gynnig ar ôl cael ei gynnig a'i eilio, gael ei gyfeirio heb drafodaeth i'r cyfryw Bwyllgor, heb ganiatáu unrhyw welliannau llafar.

Mewn ymateb i'w gwestiwn, dywedwyd wrth y Cynghorydd P Kidney y byddai'r Rhybudd o Gynnig yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Personnel, ac felly cynigiodd y Cynghorydd Kidney y Rhybudd o Gynnig, a'i obaith oedd y byddai'r Pwyllgor hwnnw yn ystyried y mater mewn modd amserol. Eiliwyd y cynnig, a gofynnwyd pam nad oedd y mater yn cael ei drafod gan yr Awdurdod y diwrnod hwnnw fel yn achos Rhybudd blaenorol. Eglurodd y Swyddog Monitro nad oedd yn amlwg yn achos y Rhybudd blaenorol i ba Bwyllgor y dylid cyfeirio'r mater, ac felly ymdriniwyd â'r Rhybudd gan yr Awdurdod.

**PENDERFYNWYD** bod y Rhybudd o Gynnig "Bod yr Awdurdod yn ystyried gwasanaeth mentor i staff yr Awdurdod, i drafod unrhyw broblemau neu bryderon, yn sgîl y pwysau ychwanegol arnynt oherwydd y pandemig presennol" yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Personnel i'w ystyried.

**8. Ymestyn y newidiadau dros dro yng ngoleuni effaith Covid 19 ar Gynllun yr Awdurdod o Ddirprwyo**

Atgoffwyd yr Aelodau bod yr Awdurdod yn eu cyfarfod ar y 6ed o Fai 2020, wedi penderfynu gwneud newidiadau dros dro i gynllun yr Awdurdod o ddirprwyo o ran materion cynllunio i ganiatáu:

i) Dirprwyo i'r Prif Weithredwr/Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfarwyddyd y Parc ar gyfer ceisiadau a gyflwynir gan yr Awdurdod neu gan Aelod o'r Awdurdod neu gan un o weithwyr yr Awdurdod;
ii) Gyda chytundeb Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu, dirprwyo i'r Prif Weithredwr/Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfarwyddyd y Parc ar gyfer ceisiadau gydag argymhelliad sy'n groes i farn y cyngor dinas/tref/cymuned;
iii) Gyda chytundeb Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu, dirprwyo i'r Prif Weithredwr/Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfarwyddyd y Parc ar gyfer ceisiadau mawr oedd heb dderbyn unrhyw wrthwynebiadau gan drydydd partïon.

Cafodd adroddiad i ymestyn y newidiadau hyn ymhellach ei gytuno yng nghyfarfod yr Awdurdod ar y 29ain o Orffennaf 2020, a nodwyd mai diben ymestyn y dirprwyo oedd sicrhau bod nifer digonol o geisiadau ar agendâu cyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfarwyddyd y Parc wrth yr Aelodau iddi fod yn rhy obeithiol yn ei hamcanion am ba bryd y gellid ail-gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb, ac roedd yn cynnig yn awr i ymestyn y newidiadau dros-dro i'r cynllun dirprwyo tan yr 16eg o Fehefin 2021. Dywedodd bod 17 o geisiadau wedi'u penderfynu hyd yn hyn o dan y cynllun estynedig.

Barnai'r Aelodau bod y cynllun diwygiedig yn gweithio'n dda, ond gofynnwyd a ellid rhoi diweddariad yn y Pwyllgorau Rheoli Datblygu yn y dyfodol. Roedd Cadeirydd y Pwyllgor wedi rhoi sicrwydd i'r Aelodau ei fod yntau a'r Dirprwy Gadeirydd yn cymryd sylwadau'r Aelodau i ystyriaeth ac yn asesu pob cais i benderfynu a ddylid ei ddirprwyo neu beidio. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr y byddai oedi heb y dirprwyo estynedig cyn penderfynu ar geisiadau fyddai'n ychwanegu at yr ôl-groniad o geisiadau ar hyn o bryd.

**PENDERFYNWYD** ymestyn cyfnod dros-dro y cynllun dirprwyo o ran materion cynllunio tan yr 16eg o Fehefin 2021 fel y nodwyd yn yr adroddiad.

**9. Amrywiad i'r Safonau Ariannol ar gyfer Caffael Ymgynghorydd Rheoli Datblygu**

Dywedwyd bod y Tîm Rheoli Datblygu ar hyn o bryd yn gweithio ar gapasiti llai oherwydd salwch tymor hir un aelod o'r tîm. Yn ogystal â hyn,

roedd y tîm yn gweithio drwy ôl-groniad o geisiadau a achoswyd gan gyfyngiadau ar y gwasanaeth oherwydd Covid-19 a phroblemau technoleg gwybodaeth yn ddiweddar. Ers mis Medi 2020 roedd yr Awdurdod wedi defnyddio ymgynghorydd cynllunio i gynorthwyo gyda'r ôl-groniad o geisiadau a phrosesu ceisiadau newydd. Ar ddyddiad y cyfarfod, cyfanswm y gwariant ar yr ymgynghorydd oedd £6,100, ac roedd disgwyl i hyn godi. Yn unol â gweithdrefnau ariannol yr Awdurdod, byddai gwariant rhwng £10,000 a £25,000 am y gwasanaeth hwn yn gofyn am gael 3 dyfynbris.

Byddai'r gofyniad i gael ac ystyried 3 gwahanol ddyfynbris yn arwain at doriad yn y gwasanaeth gan yr ymgynghorydd cynllunio cyfredol, ac yn cael effaith andwyol ar ddarparu'r gwasanaeth Rheoli Datblygu, ac yn ychwanegu at yr ôl-groniad presennol o waith ac ar y pwysau ar y staff. Yn ogystal, roedd yr Awdurdod wedi defnyddio’r ymgynghorydd, Prospero Planning, am gyfnodau tymor-byr dros nifer o flynyddoedd, ac o ganlyniad roedd yn gyfarwydd ag arferion gwaith a systemau technoleg gwybodaeth yr Awdurdod ac yn darparu gwasanaeth dibynadwy o safon.

Cytunodd yr Aelodau bod darparu gwasanaeth cynllunio effeithlon ac effeithiol yn bwysig i'r Awdurdod ac roedd parhau i ddefnyddio'r ymgynghorydd presennol i weld yn ffordd synhwyrol ymlaen. Fodd bynnag, gofynnwyd am effaith y gwariant hwn ar gyllideb yr Awdurdod ac am sicrwydd y byddai’r gwasanaeth yn cael ei roi allan i dendr yn y dyfodol.

Atebodd y Prif Weithredwr y byddai gweithdy i drafod materion y gyllideb yn cael ei gynnal yr wythnos ganlynol, ond roedd yr adroddiad wedi’i gyflwyno ar y sail y gellid talu'r gwariant. Ychwanegodd bod gofyn cadw’r ddysgl yn wastad rhwng gwario arian a darparu gwasanaethau. Fodd bynnag, roedd y gwasanaeth cynllunio yn wasanaeth hanfodol, ac y byddai'r Awdurdod yn parhau i ymateb i amgylchiadau wrth iddynt godi.

**PENDERFYNWYD** cytuno ar uchafswm gwariant o £25,000 ar ddarparu gwasanaeth ymgynghorol Rheoli Datblygu.

**10. Datganiadau Technegol Rhanbarthol ar gyfer Gweithgorau Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru a De Cymru (2ail Adolygiad)**

Dywedwyd bod Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1: Agregau (2004) (MTAN1) yn ei gwneud yn ofynnol i baratoi Datganiadau Technegol Rhanbarthol (RTS) ar gyfer yr ardaloedd a gwmpesir gan y ddau Weithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru a Gogledd Cymru. Cwblhawyd y dogfennau RTS gwreiddiol yn 2008 ac roedd yn ofynnol, yn ôl MTAN 1, i’w hadolygu bob pum mlynedd. Roedd yr Adolygiad Cyntaf wedi cael ei wneud yn 2013/2014, ac roedd hwn, yr Ail Adolygiad (sy’n cwmpasu’r cyfnod o 25 mlynedd hyd at 2041), wedi’i gyhoeddi ar ffurf drafft fis

Gorffennaf 2019. Oherwydd yr amserlen ar gyfer ymateb, roedd y Swyddogion wedi cytuno ar ymateb ar y cyd â Chadeirydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol a'r Prif Weithredwr. Roedd y prif faterion i'r Awdurdod wedi eu nodi yn yr adroddiad.

Roedd y dulliau a gymerwyd yn yr adroddiad terfynol oedd gerbron yr Aelodau yn adlewyrchu'r hyn oedd wedi'i nodi yn y drafft ymgynghori, ac roedd y pryderon hynny yn parhau. Felly cynigiwyd bod yr Awdurdod yn nodi cyhoeddi, yn hytrach na chymeradwyo'r Datganiad Technegol Rhanbarthol (DTRh).

Roedd Atodiad B y DTRh yn cynnwys cyngor penodol i'r Awdurdod mewn perthynas â darpariaeth ar gyfer agregau yn y dyfodol. Dywedwyd bod yr Awdurdod wedi bod yn gweithio gyda'r awdurdodau cynllunio cyfagos ers yr Adolygiad DTRh blaenorol gyda'r bwriad o leihau maint y gweithio mwynau yn y Parc Cenedlaethol yn y dyfodol. Er y disgwylir i hyn barhau, roedd gan y Parc Cenedlaethol ganiatadau mwynau oedd yn dal i fodoli oedd yn gwneud cyfraniadau pwysig i'r patrwm cyflenwi is-ranbarthol. Felly roedd yn ofynnol i'r Awdurdod wneud darpariaeth yn y dyfodol ar gyfer agregau crai a enillir o'r tir yn ei Gynllun Datblygu Lleol ar y sail a nodir yn yr adroddiad.

Yn olaf, dywedwyd bod yr 2ail Adolygiad o'r DTRh yn cyflwyno gofyniad i bob Awdurdod Cynllunio Lleol o fewn pob is-ranbarth gynhyrchu Datganiadau o Gydweithrediad Isranbarthol (SSRC), fel rhan o'r sail dystiolaeth sydd ei hangen i gefnogi pob Cynllun Datblygu Lleol. Diben yr SSRC oedd i gadarnhau bod pob aelod ACLl o fewn is-ranbarth penodol yn derbyn y cyfraddau rhannu ar gyfer ardaloedd eu Hawdurdod unigol hwy, fel y nodir yn yr adolygiad diweddaraf o'r DTRh, ac y byddai gofynion y DTRh ar gyfer yr isranbarth cyfan hwnnw (man lleiaf) yn cael eu bodloni. Mewn amgylchiadau eithriadol, gall SSRC glustnodi patrwm cyflenwi amgen sy'n cyflawni gofynion y DTRh ar gyfer yr isranbarth hwnnw mewn ffordd wahanol. Roedd swyddogion yn ceisio pwerau dirprwyedig i drafod wrth baratoi'r SSRC.

Gan ddiolch i'r swyddog am yr esboniad a roddwyd yn ei hadroddiad, cytunodd yr Aelodau eu bod yn hapusach i nodi'r ddogfen yn hytrach na'i chymeradwyo. Rhoddwyd sicrwydd iddynt bod awdurdodau cyfagos wedi parchu safbwynt yr Awdurdod yn y mater hwn ac wedi mynegi eu hyder yn y swyddogion i drafod ar ran yr Awdurdod. Fodd bynnag, roeddent wedi awgrymu mai da o beth fyddai rhoi gwybodaeth i'r Cynghorydd M James, fel Aelod enwebedig yr Awdurdod ar y Gweithgor gwreiddiol, am y trafodaethau.

**PENDERFYNWYD**:

a) nodi bod y Datganiadau Technegol Rhanbarthol ar gyfer 2ail Adolygiad Gweithgorau Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru a De Cymru, y Prif Ddogfen Medi 2020 ac Atodiad B (De Cymru), wedi'u cyhoeddi.

b) dirprwyo awdurdod i Bennaeth Cyfarwyddyd y Parc i drafod ar ran yr Awdurdod Parc Cenedlaethol wrth baratoi Datganiad o Gydweithrediad Isranbarthol ar gyfer isranbarth Gorllewin Cymru yn seiliedig ar y dulliau a nodir yn Sylwadau'r Swyddog yn yr adroddiad.

**11. Prynu tir fel rhan o'r Cyllid Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy ar gyfer Lleihau Carbon a Chynnal Bioamrywiaeth yn y Parc Cenedlaethol**

Dywedwyd bod cyllid o Gronfa Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy Llywodraeth Cymru wedi'i gymeradwyo fis Mehefin 2020 i gefnogi nifer o gynigion ar gyfer datgarboneiddio yn y Parc Cenedlaethol. Roedd y cynnig, '*Prynu Tir i Leihau Carbon i'r Genedl'* wedi'i gymeradwyo gyda chyllideb o £200,000 yn ogystal ag £20,000 i dalu'r costau rheoli / cyflenwi, oedd i'w gyflawni erbyn mis Mawrth 2021. Nod y cynnig oedd ategu'r gwaith o leihau carbon a gwella bioamrywiaeth drwy gynyddu'r arwynebedd o dir o dan reolaeth ffafriol barhaus at ddibenion y Parc Cenedlaethol drwy fod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn prynu tir.

Ar ôl gwaith ymchwil trylwyr gan swyddogion ar draws yr Awdurdod Parc Cenedlaethol ac ymchwilio i amrywiol gyfleoedd o brynu tir ar y farchnad agored ac oddi ar y farchnad, roedd y safle yn Nhrefin wedi'i flaenoriaethu. Ystyriwyd bod y tir hwn yn sicrhau'r canlyniadau gorau o ran bioamrywiaeth a storio carbon tra hefyd yn ateb y galw am leoliad a mynediad ar gyfer gwaith rheoli, a chynnig cyfleoedd posibl i'r gymuned ddefnyddio a mwynhau'r safle. Roedd cost y tir yn dod o fewn cyllideb grant y Gronfa, a gellid cwblhau'r prynu tir erbyn y dyddiad cau i gyflawni'r gwaith, sef diwedd Mawrth 2021, yn unol â gofynion y grant.

Roedd mwyafrif yr Aelodau yn gefnogol i'r cynnig, gan gredu y gallai'r Awdurdod ddefnyddio'r tir fel esiampl i ddangos yr hyn y gellid ei gyflawni o ran bioamrywiaeth a dal a storio carbon drwy ddefnyddio glaswelltir, yn ogystal â bod o fudd i'r gymuned leol. Fodd bynnag, mynegwyd pryder gan un Aelod ynghylch yr egwyddor bod yr Awdurdod yn prynu tir, a'r gost sy'n gysylltiedig â chynnal y tir. Gofynnwyd pam na ellid sicrhau'r buddion hyn ar dir oedd eisoes yn eiddo i'r Awdurdod.

Mewn ymateb i'r pwyntiau hyn, atebodd y swyddogion bod y gwaith parhaus o gynnal a chadw'r tir wedi'i ystyried, a bod gan yr Awdurdod y gallu i gyflawni'r gwaith hwnnw. Dangoswyd map oedd yn dangos tir oedd eisoes yn cael ei reoli er budd bioamrywiaeth, ond nodwyd nad

oedd modd cael mynediad hwylus i lawer o’r tir hwn. Roedd y tir wedi'i brisio'n annibynnol ac ystyriwyd bod £200,000 yn bris teg.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau prynu’r tir yn Nhrefin, a rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr a'r Cadeirydd fynd ati i brynu safleoedd eraill pe na bai’r pryniant hwn yn mynd rhagddo.

**12. Cysylltiadau Hynafol a Llwybrau Celtaidd - Cyllid Cam 2**

Atgoffwyd yr Aelodau bod yr Awdurdod wedi bod yn bartner yn y mentrau uchod a ariannwyd gan yr UE ers eu sefydlu. Roedd y ddau brosiect yn cefnogi cydweithredu ar draws Gorllewin Cymru a Dwyrain Iwerddon er mwyn cryfhau'r economi ymwelwyr lleol a rhanbarthol yn y ddwy wlad.

Roedd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) wedi cynnig cyfle i ymestyn y ddwy fenter tan fis Mai 2023 (Llwybrau Celtaidd) a Medi 2023 (Cysylltiadau Hynafol) ac roeddent wedi cytuno ar gymorth ffurfiol 'Cam 2' yn seiliedig ar yr ymrwymiad cyllid 'mewn egwyddor' gan yr asiantaethau hynny oedd yn rhan o’r fenter, gan gynnwys APCAP, fel yr amlinellwyd yn y dogfennau ymgeisio cysylltiedig. Roedd disgwyl i’r asiantaethau partner gyfrannu cyllid cyfatebol cyfwerth sy'n cyfateb i 20% o gyfanswm y rhaglen, a nodwyd cyfraniadau arfaethedig yr Awdurdod i'r ddwy fenter yn yr adroddiad oedd yn dod i gyfanswm o €121,852 sy’n cynnwys arian parod ac amser staff. Roedd gwybodaeth ychwanegol ar gael yn y cynlluniau busnes a gyflwynwyd i WEFO fyddai ar gael i'r Aelodau, dim ond gwneud cais.

Roedd yr Aelodau'n gefnogol i'r prosiectau ond gofynnwyd a fyddai’r posibilrwydd o golli’r cysylltiad ffisegol rhwng Sir Benfro ac Iwerddon o ganlyniad i Brexit yn cael unrhyw effaith. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cefn Gwlad, Cymunedol a Gwasanaethau Ymwelwyr bod gwell marchnata yn rhan fawr o'r ddau brosiect a bod cyfleoedd cynyddol i dargedu'r farchnad llongau mordeithio. Roedd y prosiectau'n gweithio gyda Croeso Cymru a Croeso Sir Benfro a'r gobaith oedd y byddai ymestyn y prosiectau yn dod â chyllid sylweddol o’r UE i helpu i gynorthwyo economïau ymwelwyr sy'n wynebu anawsterau dybryd ar hyn o bryd.

**PENDERFYNWYD** cytuno ar gyfraniadau'r Awdurdod i'r ddwy fenter Cysylltiadau Hynafol a Llwybrau Celtaidd fel y nodwyd yn yr adroddiad, er mwyn cynyddu gwerth ac effaith economaidd twristiaeth yn Sir Benfro a Gorllewin Cymru eto fyth.

[Cyflwynodd y Cynghorydd M Evans ei ymddiheuriadau a gadawodd y cyfarfod yr adeg hon.]

Gohiriwyd y Cyfarfod rhwng 12pm a 12.10pm.

13. **Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2021/22**

Atgoffwyd yr Aelodau mai cylch gwaith Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol oedd pennu'r cyflogau a'r lwfansau sy'n daladwy i Aelodau gan awdurdodau lleol, gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, yng Nghymru. Roedd Adroddiad Blynyddol drafft y Panel ar gyfer 2021/22 wedi'i gyhoeddi, a nodwyd y prif argymhellion oedd yn berthnasol i'r Awdurdod hwn.

Gofynnwyd am farn yr Aelodau ynghylch a ddylid cyflwyno ymateb i Adroddiad Blynyddol drafft y Panel, ac os felly, beth ddylai fod cynnwys yr ymateb. Dywedodd y Rheolwr Gweinyddiaeth a Gwasanaethau Democrataidd, er bod y cyfnod ymgynghori wedi dod i ben ar 23 Tachwedd 2020, ei bod wedi cael gair ag ysgrifenyddiaeth y Panel oedd wedi cytuno y byddent yn derbyn unrhyw ymateb yr oedd yr Awdurdod yn dymuno ei wneud.

Gofynnodd yr Aelodau am i ymateb gael ei anfon at y Panel yn diolch iddynt am eu gwaith, gan groesawu'r darpariaethau o ran costau gofal, ac yn croesawu'r ffaith, wrth bennu taliadau i Aelodau'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, bod disgwyl y byddai'r Aelodau yn cymryd rhan mewn hyfforddiant a datblygiad. Ychwanegodd Cadeirydd y Pwyllgor Cymorth a Datblygu Aelodau bod presenoldeb Aelodau'r Awdurdod yn y cyfryw hyfforddiant yn 85% ar hyn o bryd. Hefyd codwyd y mater bod yr Aelodau a benodir gan Lywodraeth Cymru yn gorfod talu treth ar gostau teithio a chynhaliaeth. Fodd bynnag, gan fod y Panel wedi'i gwneud yn glir o'r blaen nad oedd hyn yn dod o fewn eu cylch gwaith hwy, cytunwyd i beidio â chynnwys y pwynt hwn yn yr ymateb.

**PENDERFYNWYD** bod ymateb yn cael ei anfon at Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol mewn ymateb i'w adroddiad 2021/22 yn diolch iddynt am eu gwaith ac yn croesawu'r darpariaethau o ran costau gofal a hefyd wrth benderfynu ar daliadau i Aelodau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol bod disgwyl iddynt gymryd rhan mewn hyfforddiant a datblygiad.

14. **Safonau'r Gymraeg: Adroddiad Blynyddol**

Atgoffwyd yr Aelodau ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod gydymffurfio â'r Hysbysiad Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a gyhoeddwyd iddo o dan Adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Roedd Safonau 158, 164 a 170 o'r Hysbysiad Cydymffurfio yn ei gwneud yn ofynnol i Adroddiad Blynyddol gael ei gynhyrchu erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn, a chyflwynwyd yr adroddiad ar gyfer 2019/20 i'r Aelodau ei ystyried. Yn anffodus, roedd yr achos o bandemig COVID-19 (coronafeirws) a'r mesurau caeth a osodwyd ar bawb o ganlyniad, wedi golygu oedi cyn drafftio'r adroddiad tan nawr.

Nodwyd yn y cyfarfod bod gwall teipio ar dudalen 129 ym mharagraff 2.15 lle dylai'r cyfeiriad at Gynhadledd Waldo Williams fod wedi bod at Ddarlith Flynyddol. Hefyd cyn y cyfarfod codwyd cwestiwn ynghylch pam y defnyddiwyd y gair 'cwsmeriaid' ar dudalen 124 ym mharagraff 3; dewis arall a awgrymwyd oedd y gair rhanddeiliaid.

Croesawodd yr Aelodau yr adroddiad, ond nodwyd y dirywiad yn nifer y sesiynau addysgol a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg, a tybed a ellid cynnig unrhyw arwydd o'r rhesymau dros hyn. Atebodd y Rheolwr Gweinyddiaeth a Gwasanaethau Democrataidd bod llawer o'r sesiynau gweithgareddau a digwyddiadau yn cael eu cynnal yn ôl y galw, felly y rheswm dros y gostyngiad oedd bod llai yn gofyn am y sesiynau, ac y gellid ychwanegu paragraff i'r perwyl hwn.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo’r Adroddiad Blynyddol ar Safonau’r Gymraeg fel cyflwyniad yr Awdurdod i Gomisiynydd y Gymraeg, yn amodol ar y newidiadau a nodir uchod.

**15. Penodi Swyddog Diogelu Data**

Atgoffwyd yr Aelodau ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod gydymffurfio â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a deddfau Diogelu Data perthnasol eraill. Fis Mai 2018, roedd yr Awdurdod wedi penodi Paul Funnell yn Swyddog Diogelu Data; roedd Paul hefyd yn cael ei gyflogi gan APC Bannau Brycheiniog fel eu Swyddog Diogelu Data hwy. Bellach roedd Paul yn gadael APCBB ac o ganlyniad ei rôl gyda'r Awdurdod hwn yn ogystal, ac felly roedd yr adroddiad amlinellu cynigion i benodi Swyddog Diogelu Data newydd.

Yn dilyn trafodaethau gydag APCBB, y bwriad oedd cyhoeddi tendr ar y cyd i sicrhau gwasanaethau Swyddog Diogelu Data. Fel mesur dros dro, ac er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r gofynion diogelu data, cynigiwyd penodi Mair Thomas, Cydlynydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth yr Awdurdod, yn Swyddog Diogelu Data Dros-dro.

Roedd yr Aelodau yn gefnogol i'r cynigion, gyda'r amod na fydd Mair yn cael ei gorlwytho o ganlyniad i'r penderfyniad hwn. Rhoddodd y Prif Weithredwr sicrwydd pe bai digwyddiad yn codi, y byddai cymorth ychwanegol yn cael ei gyflwyno i'w chynorthwyo. Hefyd roeddent am sicrhau ei bod yn cael cyfle i ail-ystyried ymgymryd â'r rôl yn barhaol.

Hefyd gofynnwyd cwestiwn ynglŷn â'r broses dendro, a dywedodd y Prif Weithredwr mai'r bwriad oedd sicrhau contract yn ôl y gofyn i sicrhau gwasanaethau am isafswm o ddiwrnodau gydag opsiwn i gael cymorth ychwanegol pe bai angen. Er y byddai tendr ar y cyd yn cael ei gyhoeddi,

byddai'r ddau Awdurdod yn penodi ar wahân ac felly'n talu am y gwasanaethau yr oedd eu hangen arnynt ar wahân.

**PENDERFYNWYD** cytuno ar y cynigion i dendro am y gwasanaethau Swyddog Diogelu Data, a chymeradwyo penodi Mair Thomas yn Swyddog Diogelu Data Dros-dro ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

**16. Diweddaru Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy**

Atgoffwyd yr Aelodau bod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol, yn eu cyfarfod fis Gorffennaf 2020, wedi penderfynu newid ffocws y Gronfa Datblygu Cynaliadwy. O hyn ymlaen, byddai'r Gronfa yn cefnogi prosiectau cymunedol sy'n cyfrannu at leihau carbon ac yn helpu i ymateb i'r argyfwng newid yn yr hinsawdd.

Hefyd roedd yr Awdurdod wedi cymeradwyo gostwng nifer aelodaeth y Pwyllgor o 12 aelod (6 APC a 6 Ymgynghorol) i 6 Aelod APC ac 1 neu 2 Aelod Ymgynghorol sydd â sgiliau a phrofiad penodol ym maes lleihau carbon.

Yn ei gyfarfod diweddar, roedd y Pwyllgor Datblygu Cynaliadwy wedi cymryd i ystyriaeth y newidiadau hyn a diwygio'r cylch gorchwyl i amlygu'r newidiadau, yn ogystal ag awgrymu mân newidiadau ychwanegol. Roedd y cylch gorchwyl diwygiedig wedi'i atodi i'r adroddiad, a gofynnwyd am gymeradwyaeth yr Aelodau i'r cylch gorchwyl diwygiedig.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r newidiadau i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy a nodir yn yr adroddiad.

**17. Dyfarnu Cyllid mewn perthynas â'r rhaglen Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy i Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**

Dywedwyd bod yr Awdurdod wedi derbyn cyllid am eleni o'r rhaglen Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy 2020/21. Y cyfanswm a ddyrannwyd i'r Awdurdod o dan y rhaglen oedd hyd at £1,743,000, ac roedd y prosiectau canlynol wedi'u cefnogi: Trawsnewid Digidol yr Awdurdod; Gosod Mannau Gwefru Cerbydau Trydan; Ehangu'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy; a Phrynu Tir ar gyfer Lleihau Carbon. Roedd mwy o fanylion am y prosiectau hyn wedi'i gynnwys yn yr adroddiad.

Nododd yr Aelodau bod y swm mwyaf o arian wedi'i roi i osod mannau gwefru cerbydau trydan, ac fel cyrchfan allweddol i dwristiaid, roedd cael mannau gwefru cyflym yn hanfodol. Dywedwyd bod yr Awdurdod yn gweithio gyda Chyngor Sir Penfro i osod mannau gwefru ar hyd a lled y Sir, ac y gellid rhoi manylion am eu lleoliad. Gallai grwpiau cymunedol hefyd wneud cais am gyllid ar gyfer mannau gwefru drwy'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo gwariant y grant Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy a'r diwygio dilynol i Raglen Gyfalaf yr Awdurdod 2020/21.

**18. Cyfarchion y Tymor**

Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben drwy ddiolch i'r swyddogion ac i'r Aelodau am eu cyfraniadau gwerthfawr i'r cyfarfod, a dymuno Nadolig Llawen i bawb.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr ei ddiolch i'r holl staff am eu gwaith yn parhau i ddarparu'r gwasanaethau a ddisgwylir gan y Parc Cenedlaethol o dan amgylchiadau anodd. Hefyd roedd am ddiolch i'r Aelodau am eu cefnogaeth a'u dealltwriaeth yn ystod blwyddyn heb ei thebyg erioed o'r blaen.

Cadarnhawyd y cofnodion hyn (cyn belled ag y cynhwysir y newidiadau sy'n dilyn) yng nghyfarfod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd ar 3 Chwefror 2021:

Nodwyd bod gwall argraffyddol yn y paragraff olaf ond un o Gofnod 13 yn y fersiwn Saesneg (y gair remint yn hytrach na remit). Hefyd yn yr un paragraff ynglŷn â'r mater bod yr Aelodau a benodir gan Lywodraeth Cymru yn gorfod talu treth ar gostau teithio a chynhaliaeth, bod brawddeg yn cael ei hychwanegu i nodi bod y mater hwn yn parhau dan ystyriaeth ac yn cael ei ddilyn ymhellach drwy lwybrau eraill.